**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Mai 2019

Annwyl Dai,

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn bwriadu craffu ar y Rheoliadau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal iechyd sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr, a osodwyd ar 9 Mai 2019 ac y disgwylir iddynt ddod i rym ar 30 Mai 2019.

Yn anffodus, ychydig iawn o amser sydd gennym i wneud hyn. Drwy bennu'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym ar 30 Mai, sy'n cynnwys cyfnod Gwyliau Banc, Diwrnod Braint a chyfnod toriad, mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu 10 diwrnod gwaith yn unig inni ymgynghori â'n rhanddeiliaid, trafod y mater hwn ac adrodd arno i'r Cynulliad. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynegi fy rhwystredigaeth gyda'r sefyllfa.

Gydag ymddiheuriadau am y dyddiad cau byr, a wnewch chi ddwyn y Rheoliadau i sylw eich Aelodau a rhoi gwybod i mi a oes unrhyw faterion y mae eich Pwyllgor neu randdeiliaid yn teimlo y dylid rhoi sylw iddynt yn ein hadroddiad?  A fyddai modd i chi ymateb erbyn 17 Mai 2019?

Rwy'n ddiolchgar i chi am eich mewnbwn. Mae'n bwysig ein bod yn clywed barn eich rhanddeiliaid ar y mater hwn, fel y gallwn wneud asesiad llawn o effaith y ddeddfwriaeth.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

Bethan Sayed AC
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

14 Mai 2019


Annwyl Bethan

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mai 2019 ynghylch bwriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i graffu ar y Rheoliadau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal iechyd sylfaenol.

Yn anffodus, oherwydd ymrwymiadau presennol yn y rhaglen waith, nid oes amser ar gael i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ystyried y Rheoliadau hyn yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, rwyf wedi dosbarthu eich llythyr, y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol i Aelodau'r Pwyllgor ac wedi awgrymu eu bod yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Cofion cynnes



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565